



2.00pm, Dydd Iau 14 Mai 2020
Cyfarfod Microsoft Teams

COFNODION

Presennol	
Enw	Sefydliad
Barry Liles (Cadeirydd)	Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Cyng Emlyn Dole	Cyngor Sir Caerfyrddin
Sarah Jennings	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Huwel Manley	Cyfoeth Naturiol Cymru
Athro Jean White	Llywodraeth Cymru
Ruth Mullen	Cyngor Sir Caerfyrddin
Julian Atkins	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Kevin Jones	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Carys Morgans	Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Andrew Cornish	Coleg Sir Gâr
Maria Battle	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Uwcharolygydd Ifan Charles	Heddlu Dyfed-Powys
Marie Mitchell	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin
Martyn Palfreman	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru
Menna Davies	Adran Gwaith a Phensiynau

Hefyd yn bresennol	
Enw	Sefydliad
Gwyneth Ayers	Cyngor Sir Caerfyrddin
Kate Harrop	Cyngor Sir Caerfyrddin
Wendy Phillips	Cyngor Sir Caerfyrddin
Anna Bird	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
David Davies	Cynghorau Cymuned Cwmaman, Llannon a Llanedi

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd Barry Liles, Cadeirydd y BGC bawb i gyfarfod rhithwir cyntaf y BGC. Croesawodd yr Uwcharolygydd Ifan Charles i'w gyfarfod cyntaf ers cael ei benodi'n Uwcharolygydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin a dymunodd yn dda ar ran y Bwrdd i Sarah Jennings ar ei rôl newydd yn Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mynegodd Barry Liles ei ddiolch a'i edmygedd diffuant o holl aelodau'r BGC am yr ymdrechion, ymrwymiad ac ymateb i'r pandemig, gan gyfeirio'n arbennig at y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd. Dywedodd fod yr ymateb yn gwneud iddo deimlo'n falch iawn o fod yn byw yn Sir Gaerfyrddin.

Ymddiheuriadau	
Enw	Sefydliad
Ros Jervis	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Christine Harley	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Jonathan Feild	Adran Gwaith a Phensiynau

2. Ymateb ac Adferiad Sefydliadol COVID-19

Gofynnwyd i bob sefydliad ddarparu diweddariad ar y tri phwynt allweddol a ganlyn:

- Pwyntiau dysgu allweddol i'r sefydliad o'r cyfnod ymateb, gan gynnwys cysylltiadau gyda phartneriaid
- Cynlluniau'r sefydliad ar gyfer adfer
- Cyfleoedd posib ar gyfer cydweithio yn rhan o'r gwaith adfer

Cyngor Sir Caerfyrddin – Ruth Mullen

- Llawer o gydweithio, yn enwedig felly gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHH), yn cynnwys cefnogaeth i gartrefi gofal, gofal preswyl a phrofion, ysbytai maes a nifer fawr o faterion eraill
- Cydweithio gyda Heddlu Dyfed-Powys wrth gefnogi'r gwaith o orfodi rheoliadau a threfniadau'r cyfyngiadau symud
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru gyda chymorth PPE ac ati
- Mae'r cysylltiadau a sefydlwyd trwy'r BGC wedi bod yn hollbwysig yn ystod y pandemig, gan arwain at weithredu cyflym ar faterion cymhleth
- Bu'n rhaid dysgu bod yn hyblyg tra'n parhau i gyflawni cyfrifoldebau o ran cymeradwyaethau ac ati
- Cafodd adroddiad sefyllfa ar waith y Cyngor ei baratoi a bydd yn cael ei rannu gyda phartneriaid
- Bwriedir adfer ac ailosod gwasanaethau dros yr ychydig fisoedd nesaf, ac fe sefydlwyd nifer o is-grwpiau:
 - Cyfathrebu ac Ymgysylltu
 - Busnes, Economi a Chymuned
 - Iechyd a Lles
 - Cyllid, Cyfreithiol a Democrataidd
 - Llesiant Pobl ac Iechyd a Diogelwch
 - Amgylchedd a Seilwaith
 - Addysg
- Bydd incwm o £6.2m wedi cael ei golli hyd at fis Mehefin
- Maes gwaith mawr fydd cynorthwyo Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) a Llywodraeth Cymru ar y rhaglen tracio ac olrhain
- Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar ailgychwyn addysg mewn ysgolion
- Mae nifer o gynlluniau gwahanol i gefnogi'r economi e.e. arian grant, rhyddhad ardrethi busnes, cymorth trwy'r cynllun ffyrlo a chymorth i bobl hunangyflogedig. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio pobl i fannau eraill ac edrych ar beth arall ellir ei wneud i gefnogi a thyfu busnes eto wrth inni symud ymlaen
- Bydd rhaid i wasanaethau allweddol barhau i fod yn gydnerth gan fod rhaid disgwyl absenoldebau staff. Mae lefelau absenoldeb staff yn 17.4% ar hyn o bryd, ac mae 11.5% o'r rheiny o'r gweithlu allweddol
- Mae cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol ar fin ailddechrau a chynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol y mis nesaf; cyfarfodydd rhithwir fydd y rhain
- Dilyniir Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran canllawiau cadw pellter corfforol ac a ddylai staff fod yn ôl mewn adeiladau neu a ddylent barhau i weithio gartref
- Mae gallu'r sector gofal mewnol ac annibynnol i barhau'n gydnerth yn fater o bwys mawr

- Mae gwasanaeth cyflenwi bwyd yn cael ei ddarparu i bobl agored I niwed, risg uchel a phobl sy'n hunanynysu heb unrhyw gymorth arall. Rydym hefyd yn helpu Llywodraeth Cymru gyda'u gwasanaeth dosbarthu bwyd ar gyfer unigolion sy'n gwarchod. Mae Castell Howell, cwmni cyflenwi lleol, yn cael eu defnyddio i ddarparu bwyd lleol, gan helpu trigolion lleol a'r economi a busnesau lleol.

Llongyfarchodd Barry Liles y Cyngor ar ddatblygu'r ysbyty maes, gweithio gyda Castell Howell ar y parseli bwyd a datblygu SirGâredig ar gyfer marchnata/cysylltiadau cyhoeddus. Gofynnodd a oes unrhyw gyfleoedd cydweithio posib eraill wrth edrych ymlaen. Dywedodd Ruth y bydd yr amcanion llesiant yn parhau fel y maent ond efallai y cânt eu cyflawni'n wahanol, ac yn enwedig felly adfer yr economi a sgiliau ac ailhyfforddi wrth i bobl weithio'n wahanol.

Ychwanegodd Emlyn Dole y sylwadau canlynol:

- Mae'r hyn a gyflawnwyd yn rhyfeddol ac mae staff wedi mynd y filltir ychwanegol
- Cafodd yr ysbytai maes eu creu o fewn tair wythnos ac roedd cwmnïau lleol, TRJ a Lloyd & Gravell, yn gweithio dyddiau 16 awr
- Mae nifer y gwasanaethau a gafodd eu cynnal yn uchel
- Mae pryderon ynghylch cydnerthedd ariannol wrth edrych ymlaen, ac fe gafwyd trafodaethau gydag arweinyddion eraill a Llywodraeth Cymru
- Dysgwyd gwersi ynghylch cysylltedd digidol a sut mae'n ein galluogi i weithio'n wahanol a helpu gwireddu ein nod o fod yn ddi-garbon erbyn 2030.
- Daeth lleoliaeth, caffael lleol a'r economi gylchynol yn amlwg yn ystod y pandemig.
- Bu'r cydweithio wythnosol â'r Bwrdd Iechyd yn rhagorol, a'r gobaith yw y bydd hyn yn parhau.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – Maria Battle

- Mae pawb wedi mynd y filltir ychwanegol dro ar ôl tro dros y misoedd diwethaf ac mae'r gwaith partneriaeth wedi bod yn amlwg iawn.
- Roedd creu'r ysbytai maes yn gamp ryfeddol, ac fe rannwyd y protocol a'r fanyleb gyda gweddill Cymru.
- Roedd staff a thrigolion cartrefi gofal wedi cael eu profi cyn i hynny ddigwydd trwy Gymru.
- Cafwyd nifer o heriau gyda PPE, ond gyda'n gilydd daethom o hyd i gyflenwyr lleol ac mae'r gymuned wedi helpu hefyd.
- Cafodd peiriant CPAP ei ddylunio a'i wneud yn y Sir.
- Cafwyd cydweithio ar y protocol ar gyfer cartrefi gofal.
- Llwyddiant mawr ymhob cymuned yw'r model cymdeithasol o iechyd ar waith. Mae'r cymunedau wedi cefnogi ei gilydd, ac mae hynny wedi galluogi pobl i aros yn iach yn eu cartrefi eu hunain.
- Cafodd 1,000 o aelodau staff eu recriwtio, ac fe sefydlwyd trefniadau ar gyfer cefnogi staff a gofalu am eu lles.
- Mae meddygfeydd teulu wedi cynnal triage trwy ddulliau rhithwir yn llwyddiannus.
- Mae grŵp trawsnewid yn mynd i gael ei sefydlu mewn partneriaeth er mwyn gwreiddio ac adeiladu ar y modelau gofal a sefydlwyd yn gyflym, a bydd yn edrych ar beth sydd orau i bobl.
- Mae staff rheng flaen yn teimlo fod y ffordd newydd o weithio yn well ac nid ydynt am fynd yn ôl i'r hen ffyrdd.
- Mae llai o fiwrocratiaeth wedi helpu gwneud i bethau ddigwydd.
- Cytunwyd ar gynllun gweithredu ar gyfer ailgyflwyno gwasanaethau a ataliwyd ei gytuno ac fe gaiff ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.
- Er y byddwn yn byw gyda'r pandemig hwn am beth amser mae angen sicrhau bod gofal ar gael i bawb sydd ei angen.
- Mae cynhyrchwyr bwyd lleol wedi ymateb ac maent yn rhoi bwyd maethlon da i weithwyr nad oes ganddynt yr amser i goginio drostynt eu hunain, ac mae hyn wedi helpu staff ysbytai a gofal.
- Cafodd staff leoedd i fyw oddi wrth eu teuluoedd er mwyn eu cadw'n ddiogel.

- Bu nifer o grwpiau gwirfoddol yn gwnïo masgiau wyneb neu'n gwneud misyrnau. Er efallai nad yw rhai ohonynt yn addas i'w defnyddio mewn ysbytai, maent yn addas ar gyfer archfarchnadoedd a busnesau ac ati. Mae cyfle yma i helpu'r economi i dyfu.
- Bu'r cyfathrebu yn rhagorol a bu croeso mawr i'r cyfarfodydd wythnosol gydag Arweinyddion a Phrif Weithredwyr yr awdurdodau lleol.
- Diolchodd Maria i'r holl bartneriaid a staff am eu gwaith.

Dywedodd Barry Liles ei bod yn dda gweld mai cwmnïau lleol oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer yr ysbytai maes ac wrth ddatblygu'r peiriant CPAP gan gwmni o'r Betws.

Ychwanegodd Sarah Jennings fod y gwaith partneriaeth wedi bod yn dda yn Sir Gaerfyrddin erioed, ac fe brofwyd hynny eto dros yr wythnosau diwethaf. Mae'r pandemig hwn wedi profi fod yr ymddiriedaeth oedd yno'n barod wedi hwyluso a chyflymu'r gwaith. Wrth edrych ymlaen, mae'n bryd inni gael bwriadau mawr ac ailosod yr hyn a wnawn, e.e. caffael lleol, economi gylchynol a newid hinsawdd. Ffocws posib arall yw'r anghydraddoldebau iechyd fydd wedi cynyddu oherwydd y pandemig. Sut rydym yn rhoi'r gefnogaeth fwyaf i'r sawl y mae eu hanfantais wedi tyfu e.e. mae iechyd, digidol, addysg ac ACE's yn her.

Heddlu Dyfed-Powys – Uwcharolygydd Ifan Charles

- Mae'r sefydliad yn llawer mwy ystwyth, ac mae 350 o staff y Pencadlys yn gweithio gartref erbyn hyn ac maent yr un mor effeithiol. Mae'r defnydd o Skype wedi cynyddu cryn dipyn ac mae pob cyfarfod yn cael ei gynnal erbyn hyn trwy rith-ddulliau.
- Cafodd heddwision newydd a Chwnstabiliaid Arbennig eu hyfforddi'n llwyddiannus trwy rith-ddulliau.
- Mae gwrandawiaidau remánd yn cael eu cynnal trwy rith-ddulliau.
- Cynhelir ymgynghoriadau ar gyfer y cyfweiliadau hynny trwy Skype.
- Mae staff 101 yn gallu derbyn galwadau tra'n gweithio gartref.
- Sefydlwyd Tîm Adfer i edrych ar normal newydd. Rydym yn gweithio gyda heddluoedd eraill ar draws Cymru i edrych ar fentrau ac enghreifftiau o arfer da mewn mannau eraill.
- Cynlluniau i'r dyfodol – rydym yn gweithio gydag arweinyddion busnes i weld beth weithiodd yn dda ac i fynd â momentwm gweithio gartref/gweithio'n ystwyth i'r dyfodol.
- Rydym yn gweithio gyda'r grŵp adfer dan arweiniad LRF gyda phartneriaid.
- Rydym yn bwriadu gweithio gyda sefydliadau eraill i adnabod parthau gweithio'n ystwyth posib y gellid eu rhannu.
- Mae'r Hwb Bregusrwydd wedi cynyddu nifer y cyfarfodydd strategaeth sy'n cael eu cynnal trwy ddulliau rhithwir yn hytrach nag yn bersonol, ac maent yr un mor effeithiol.
- Rydym yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Llysoedd a Gwasanaeth Erlyn y Goron i gynnal achosion rhithwir.

Cyfeiriodd Barry Liles at yr elfennau o ddigideiddio sy'n gyffredin i'r tri sefydliad. Holodd Jean White am y gwasanaeth Wi-Fi ar draws y sir. Ymatebodd Ruth trwy ddweud fod y Cyngor Sir wedi datblygu Strategaeth Trawsnewid Digidol yn cynnwys gwasanaeth Wi-Fi a ffonau symudol ar draws y sir. Mae ardaloedd yn y sir nad oes ganddynt y naill signal na'r llall ac mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda chyflenwyr allweddol ar sut ellir gwella'r sefyllfa. Mae rhaglenni ar ehangu'r rhwydwaith, ac mae rhai cyflenwyr yn gweithio ar seiliau masnachol ar hyn o bryd yn cyflenwi/ehangu rhwydweithiau ffeibr. Hefyd, mae gan y Llywodraeth raglenni i ehangu'r gwasanaeth band eang. Bwriedir cyflwyno dadansoddiad o'r gwasanaeth band eang i'r cyfarfod nesaf, ynghyd â manylion am y gwaith sy'n cael ei wneud ar Strategaeth Trawsnewid Digidol y Cyngor.

Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu – Carys Morgans

- Roedd yr Uwcharolygydd Ifan Charles wedi nodi'r rhan fwyaf o weithgarwch ffocws yr Heddlu yn barod.

- Mae'r Comisiynydd, fel Cadeirydd Grŵp Heddlu Cymru, wedi gwneud llawer o waith yn cysylltu â Llywodraeth Cymru, y Gweinidog dros yr Heddlu yn San Steffan ac yn pwysu ar ran gwasanaeth yr heddlu. Un maes allweddol o'r gwaith pwysu yw'r diffyg eglurder oherwydd y trefniadau gwahanol yng Nghymru a Lloegr sy'n dal i gael eu datblygu.

CAVS – Marie Mitchell

- Cafwyd ymateb gwych i'r alwad am wirfoddolwyr dros y misoedd diwethaf ac roedd nifer o gymunedau wedi sefydlu eu prosiectau eu hunain hyd yn oed cyn i'r wybodaeth gael ei danfon.
- Gwelwyd cynnydd amlwg yn nifer y bobl a gofrestrodd gyda Gwirfoddoli Cymru, ac roedd 1,000 wedi cofrestru o fewn tair wythnos. Amcangyfrifwyd nad yw 300 o wirfoddolwyr wedi dod o hyd i rôl ffurfiol a'u bod wedi cael eu cyfeirio at eu grwpiau cymunedol lleol.
- Sefydlwyd 230 o grwpiau i gefnogi'r cymunedau, mae rhai ohonynt yn safleoedd sgysio ar gyfryngau cymdeithasol.
- Darperir cefnogaeth i grwpiau sydd eisiau sefydlu'u hunain yn ffurfiol e.e. polisïau gwirfoddoli a sefydlu'u hunain yn fudiad cyfansoddedig.
- Mae maint grwpiau yn amrywio o un yn gofalu am chwe thŷ, i bentrefi lle y mae yna fudiad cyfansoddedig yn bodoli'n barod.
- Cafodd lleoliaeth a digidol eu hamlygu, ond gwyddom yn iawn nad ydym yn cyrraedd rhai pobl o hyd, yn enwedig felly'r bobl nad oes ganddynt gysylltiadau digidol.
- Mae Merched y Wawr wedi sefydlu cynllun 'ffonio ffrind'. Mae CAVS hefyd wedi sefydlu gwasanaeth cyfeillio ar y ffôn, sy'n golygu fod gwirfoddolwyr yn ceisio cysylltu unigolion gyda phobl maen nhw'n eu hadnabod yn barod.
- Rydym yn gweithio'n agos gyda Biwro Cymunedol y Cyngor ac yn cael cyfarfodydd wythnosol gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol ledled Cymru a chyda Llywodraeth Cymru.
- Cafodd nifer o ffrydiau ariannu eu cyfuno o ffynonellau gwahanol ar gyfer cymunedau a mudiadau. Gallwn droi at wybodaeth genedlaethol gan gyllidwyr fel WCVA, y Loteri, Moondance, Community Foundation ac ati i sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu i'r prosiectau mwyaf priodol. Mae arian Mynydd y Betws ar gael i bobl o fewn yr ardal ddaearyddol honno, ac mae'n darparu cronfeydd eraill ar gyfer pobl y tu allan i'r ardal honno. Mae Comic Relief wedi cadarnhau y bydd gan CAVS grant o £26k i'w dosbarthu.
- Mae gennym gyswllt rheolaidd â 1,500 o bobl/mudiadau yn y sir ond rydym wedi derbyn nifer o ebyst yn ôl yn rhoi gwybod inni eu bod ar ffyrlo neu fod eu drysau ar gau ac ati. Rydym yn gweithio ar hyn o bryd gyda'r Cyngor a Chanolfan Gydweithredol Cymru a bydd holiadur yn cael ei anfon at fudiadau i weld pa effaith gafodd yr argyfwng a pha gefnogaeth fydd ei hangen arnynt i'r dyfodol.
- Cynhelir cyfarfodydd Zoom er mwyn cefnogi cydlynwyr cymunedol a darparu hyfforddiant e.e. digidol, ymwybyddiaeth iechyd meddwl a diogelu. Bydd rhaglen o hyfforddiant yn dilyn.
- Mae cydweithio wedi bod yn allweddol, boed yn lleol, rhanbarthol neu genedlaethol.

Dywedodd Barry Liles ei bod yn galonogol gweld fod cymaint o wirfoddolwyr yn cofrestru i gefnogi'r cymunedau.

Adran Gwaith a Phensiynau – Menna Davies

- Mwy ystwyth a hyblyg a chanran uchel o bobl yn gweithio'n llwyddiannus yn darparu gwasanaeth o'u cartrefi.
- Bu llwyfan Credyd Cynhwysol yn gadarn ac mae wedi gwrthsefyll y pentwr o geisiadau. Yn genedlaethol rhwng 16 Mawrth a diwedd Ebrill:
 - Dros 1.8m o geisiadau am Gredyd Cynhwysol
 - 250k o geisiadau am Lwfans Ceisio Gwaith
 - 20k o geisiadau am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
 - 20-25k o geisiadau y dydd
 - 700k o flaendaliadau budd-daliadau Credyd Cynhwysol
 - 93% o daliadau'n cael eu gwneud yn brydlon, gwelliant ar 84% yr un pryd y llynedd.

- Data lleol rhwng 15 Mawrth ac 19 Ebrill:
 - Rhydaman – cynnydd o 39%
 - Caerfyrddin – cynnydd o 43%
 - Llanelli – cynnydd o 37%
- Gan fod llwyfan Credyd Cynhwysol yn ddigidol, mae cael cysylltiad â'r rhyngwrwyd yn hanfodol, ac er bod swyddfeydd ar gau, mae trefniadau eraill yn cael eu gwneud ar gyfer pobl nad oes ganddynt gysylltiadau digidol.
- Cafodd 8,000 o staff eu hadleoli i rolau prosesu cwsmeriaid a chafodd 500 o staff eu benthyca o adrannau eraill y llywodraeth i sicrhau bod amserlenni taliadau'n cael eu cadw. Mae gennym ymgyrch recriwtio fawr ar hyn o bryd, ac nid yw ymgeisyddion yn gorfod mynd drwy'r fiwrocratiaeth arferol.
- Mae dogfennau'n cael eu derbyn heb lofnodion gwlyb ar hyn o bryd ac rydym yn defnyddio dull ymddiried a diogelu. Cafodd elfen amodol budd-daliadau ei dileu er mwyn gallu cadw at reolau'r cyfyngiadau symud.
- Canolfannau Cymorth – cafodd rolau newydd eu mabwysiadu heb unrhyw gwynion e.e. mae rolau brocera swyddi yn rheolwyr achosion erbyn hyn. Gweithiodd staff trwy'r gwyliau banc i sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud.
- Mae galwadau Cefnogi Cwsmeriaid yn cael eu gwneud i sicrhau bod ceiswyr yn deall eu budd-daliadau ac i gael unrhyw wybodaeth ychwanegol allai ychwanegu at eu budd-dâl ac i weld a oes ganddynt unrhyw bryderon eraill.
- Mae llawer o geiswyr yn barod am waith ac yn awyddus i helpu mewn cymunedau neu mae ganddynt bryderon am gael eu diswyddo ac yn chwilio am swydd arall.
- Mae swyddi ar gael ym meysydd gofal, amaeth, GIG a swyddi gyrru.
- Mae cwmnïau'n cysylltu i roi gwybod eu bod yn diswyddo pobl.
- Byddwn yn cydweithio â'r bartneriaeth dysgu a sgiliau ranbarthol a Gyrfa Cymru
- Rydym yn bwriadu cynhyrchu cylchlythyr i rannu swyddi gwag ond nid yw'n barod eto.
- Rhoddwyd y gorau i'r asesiad iechyd ar gyfer y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a chafodd nifer o fudd-daliadau eu hystyngiadau am 3 mis.
- Ffocws ar aildanio hunangyflogaeth ledled Cymru.
- Ceisio chwistrellu hyder yn ôl i gymunedau, y farchnad waith a ffocws ar gwsmeriaid sydd newydd gael eu gwneud yn ddi-waith.
- Mae'r DWP a Gyrfa Cymru wedi creu fideo YouTube ar y cymorth sydd ar gael.

Dywedodd Maria Battle fod yr ymateb i'r galwadau cwrteisi a'r broses gwneud cais yn gwbl gadarnhaol. Ychwanegodd Ruth Mullen fod yr ymatebion da i'r hysbysebion recriwtio presennol yn dangos fod pobl yn ymwybodol o ddiswyddiadau posib neu eu bod yn barod i gynnig am swyddi.

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru – Kevin Jones

- Dangosodd y pandemig fod staff a chymunedau lleol yn hyblyg a chydnerth.
- Dywedwyd y cafodd y tîp coch arferol ei dorri er mwyn adeiladu'r ysbytai maes mewn amser byr, o dan amgylchiadau arferol byddai hynny wedi cymryd llawer mwy o amser.
- Mae gallu cael cyfarfodydd rhithwir yn lleihau ein hól troed carbon ac mae'n cyfrannu at ein hymdrechion hirdymor i wella'r amgylchedd.
- Sefydlwyd 5 tîm digwyddiad tyngedfennol;
 - Logisteg
 - Pobl
 - Partneriaethau
 - Cydnerthedd lleol
 - Cyfathrebu

- Erbyn hyn mae staff yn gweithio o bell, boed hynny o’u cartrefi neu mewn Gorsafoedd Tân Cymunedol os oes ganddynt well cysylltedd. Darperir gweminarau a chamau hunangymorth, gan gynnwys iechyd meddwl, llesiant a ffitrwydd.
- Mae darparu PPE ar gyfer criwiau gweithredol wedi bod yn her.
- Rydym wedi gweithio’n agos gyda rheoli adeiladu’r Awdurdod Lleol wrth sefydlu ysbytai maes ac rydym yn parhau i helpu gyda chyfleusterau corffddai.
- Cafwyd gwaith partneriaeth da er mwyn cytuno trefniadau diogelwch tân ar gyfer eiddo bregus, a daethpwyd o hyd i 24 eiddo newydd.
- Cadwyd cysylltiad rheolaidd â phartneriaid ar atgyfeiriadau diogelwch tân mewn tai a phobl bregus sy’n gwarchod ynddynt, ac nid oeddem yn gwybod am rai ohonynt o’r blaen.
- Cysylltiadau diogelwch ffordd â’r Cyngor a’r Heddlu, mae lefelau traffig wedi lleihau ond mae cyflymdra wedi codi, yn arwain at ddamweiniau mwy difrifol.
- Dosbarthwyd pecynnau diogelwch tân mewn tai yn cynnwys platfform rhithwir ar sut i’w gosod.
- Gan fod y canolfannau ailgylchu ar gau ar hyn o bryd, mae pobl yn cadw gwastraff domestig a gardd ac yn ceisio ei losgi.
- Ystyried creu pecyn gwaith ar-lein trwy Hwb er mwyn helpu gydag addysg diogelwch ac osgoi tân ar gyfer plant ysgol.
- Bwriedir cynnal y cyfarfod pwyllgor rhithwir cyntaf ddydd Llun a threfnwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ar gyfer mis Mehefin.
- Gobeithio gwneud mwy o waith gyda’r Gwasanaeth Ambiwlans yn y dyfodol gan fod gyrrwyr wedi cael eu hyfforddi i yrru ambiwlansys.
- Efallai y bydd cyfleoedd i rannu adeiladau/swyddfeydd erbyn hyn gan ein bod yn gweithio mewn ffordd fwy ystwyth erbyn hyn.
- Mae rhannu data yn bwysicach ar hyn o bryd nag y bu erioed.

Dywedodd Barry Liles mai’r prif negeseuon oedd partneriaeth, cydnherthedd lleol a rhannu data. Mae’n rhaid inni gael hyder yn yr hyn a gyflawnwyd a’r hyn y gellir ei gyflawni.

Cynghorau Cymuned – Dai Davies

- Mae gan bob ardal ei phroblemau a’i hatebion ei hunan. Bydd arloesi yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael yn y gymuned ei hun.
- Mae gan bob un o’r tair ardal Swyddog Datblygu Cymunedol, a bu eu rolau nhw yn amhrisiadwy yn cyflwyno gwasanaethau i’r gymuned a bod yn brif gyswllt â’r Bwrdd Iechyd, yr Awdurdod Lleol a CAVS.
- Mae cysylltiadau lleol yn hollbwysig a byddwn yn adleisio sylwadau blaenorol ynghylch y partneriaethau a sefydlwyd ac mae cael gwared â rhwystrau a bwrw ati gyda’r gwaith wedi bod yn hollbwysig.
- Maent hefyd wedi sefydlu rhwydweithiau cymdeithasol lleol er mwyn gallu rhannu gwybodaeth ac maent wedi cysylltu â phobl nad ydynt wedi defnyddio gwasanaethau hyd yn hyn.
- Enghreifftiau o weithgarwch a gyflawnwyd gyda chymorth gwirfoddolwyr:
 - Siopa
 - Cyflenwi rhagnodiadau
 - Cynllun cyfeillio, gan ddarparu ffonau symudol
 - Mynd â chŵn am dro
 - Cefnogaeth ar-lein a chyfryngau cymdeithasol
 - Pryd ar Glud
 - Maent wedi cael eu hailsefydlu yn ardal Cwmaman, gan weini 60-70 pryd y dydd
 - Mae ardal Llannon yn gweithredu ddwywaith yr wythnos
 - Sefydlwyd banciau bwyd, er mwyn cefnogi pobl nad ydynt fel arfer yn cael budd-daliadau yn arbennig.
 - Cymorth iechyd meddwl – partneriaid gyda grŵp cymorth gydag iselder Cysgodion

- Nodiadau calon – gellir derbyn negeseuon trwy ebost a’u dosbarthu i aelwydydd nad oes ganddynt gysylltiadau digidol.
- Fe fu nifer fawr o gyfleoedd arloesi:
 - Mae gan Gwmaman brosiect yn cefnogi’r gwaith o ddarparu PPE. Gan weithio gyda Phrifysgol Abertawe fe sefydlwyd 42 o ffermydd argraffu 3D ledled Sir Gaerfyrddin. Cafodd mwy na 14k o fasnau wyneb eu cynhyrchu ac archebwyd 4k arall gan ysbytai a chartrefi gofal. Cafodd 196 o wardiau mewn ysbytai a lleoliadau eraill eu cefnogi hyd yn hyn. Derbyniwyd £30k gan Fferm Wynt Brechfa i gefnogi’r gwaith o ddarparu PPE i Ysbyty Glangwili. Darparwyd PPE yn rhad ac am ddim i ysbytai a gofynnwyd i gwmnïau preifat gyfrannu £2 er mwyn gallu prynu deunyddiau crai. Mae grantiau hael a dderbyniwyd oddi wrth gynghorau cymuned cyfagos a thudalen Go Fund Me wedi codi £10k hyd yn hyn. Rydym wrthi’n trafod gyda Fferm Wynt Brechfa ar hyn o bryd er mwyn darparu mwy o gyfarpar PPE ar gyfer staff gofal cymunedol. Y masgiau sy’n cael eu cynhyrchu yw’r unig rai y gellir eu sterileiddio a’u hailddefnyddio. Erbyn hyn mae masgiau wyneb yn cael eu darparu i Ogledd Cymru.
 - Rydym yn gysylltiedig â phrosiect rhyngwladol gyda Phrifysgol Stanford ac yn rhannu gwybodaeth ar sut mae technoleg yn datblygu ar gyfer PPE.
 - Rydym yn rhan o Gydweithfa PPE ac Offer Iechyd De Cymru mewn partneriaeth â’r Drindod Dewi Sant ac rydym wrthi ar hyn o bryd yn ymchwilio beth ellir ei wneud yn lleol i gynhyrchu anadlyddion systemau pwysedd aer cadarnhaol a phebyll mewndiwbio. Mae’r Gwasanaeth Ambiwlans wedi cael anawsterau gyda PPE a’r gobaith yw darparu ffedogau ac anadlyddion y gellir eu hailddefnyddio. Mae Gwasanaeth Tân RAF Sain Tathan wedi darparu nifer o lwferau sy’n cael eu haddasu er mwyn creu systemau resbiradu pwysedd aer cadarnhaol.
- Cafwyd cryn gydweithio hyd yn hyn a byddem yn ddiolchgar am unrhyw gymorth ychwanegol.
- Byddai gwaith allestyn addysgol yn cysylltu â phrosiectau cymunedol yn gyfle.
- Byddem yn falch o gael cymorth gyda chreu cynhyrchion cymunedol/cyfleoedd cynhyrchu lleol/busnesau cymunedol.
- Mae Prifysgol Abertawe yn astudio sut all elfen lleoliaeth gynorthwyo gyda chynhyrchu rhanbarthol – Model Arloesi Quadruple Helix.

Llongyfarchodd Barry Liles bawb am y gwaith sy’n cael ei wneud a rhoddodd Maria Battle ei diolchiadau hithau ar ran y Bwrdd Iechyd ac i’r peirianwyr clinigol a’r tîm atal a rheoli heintiau a sefydlodd system sicrhau ansawdd leol.

Coleg Sir Gâr – Andrew Cornish

- Cafodd y Rhaglen Ddysgu Hyblyg i Oedolion ei hymestyn tan fis Hydref.
- Cafodd y coleg 10 diwrnod i symud o amgylchedd coleg traddodiadol i amgylchedd o bell.
- 950 o staff yn gweithio o hirbell ar draws Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.
- Mae addysgu ar-lein yn wahanol iawn i’r sefyllfa draddodiadol. Codwyd nifer o gwestiynau wrth ddatblygu egwyddorion e.e. beth yw’r cyfnod mwyaf priodol ar gyfer dysgu ar-lein a pharhau’n effeithiol?
- Cafodd tloidi digidol ei amlygu; er y gellir darparu gliniaduron efallai na fydd gan ddysgwyr fand eang gartref.
- Mae mathau gwahanol o ddysgwyr yn y coleg ac rydym yn edrych ar arferion dysgu gwahanol.
- Cafodd pwysigrwydd y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei amlygu’n ddiweddar, ac nid oes digon yn cael ei wneud i hyrwyddo’r mathau gwahanol o swyddi yn y sector. Cafodd rhai dysgwyr eu rhoi ar lwybr carlam i mewn i’r sector.
- Gan y cafodd arholiadau allanol eu canslo, mae graddio ac asesiadau’n cael eu gwneud gan staff, ond gan fod dros 1,000 o gymwysterau mae hon yn dasg enfawr.
- Mae’r coleg ar agor o bell ac mae lefelau ymgysylltu ar-lein y 3,000 o ddysgwyr llawn-amser yn 85-90%.

- Mae cyrsiau ymarferol yn creu her gan na ellir gwneud asesiadau ar-lein. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i agor campysau'n ddiogel er mwyn inni allu cynnal asesiadau.
- Mae recriwtio dysgwyr newydd hefyd yn her, yn enwedig felly gyda mesurau cadw pellter cymdeithasol. Rydym yn rhagweld y caiff llawer o'r dysgu ei wneud ar-lein ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.
- Mae cydnerthedd ariannol yn her ac mae angen sicrhau y gall y coleg wynebu heriau'r dyfodol.
- Cafwyd partneriaeth gyda'r GIG ar gyfer hyfforddiant, gwasanaeth gwaed, a buom yn gweithio ag ysgolion, colegau eraill a chyflogwyr. Bydd addysg yn cael ei thrawsnewid wrth edrych i'r dyfodol.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – Julian Atkins

- Bu'r ffocws ar weithio ar lefel genedlaethol, gyda Llywodraeth Cymru, Parciau Cenedlaethol eraill a Croeso Cymru er mwyn annog pobl i beidio ymweld â'r Parciau Cenedlaethol. Er y bu safleoedd poblogaidd ar gau ac er bod yr Heddlu wedi'n cefnogi trwy ddarparu rhwystrau ffyrdd, mae rhai ymwelwyr wedi bod yn dod o Loegr, yn enwedig felly wedi i'r canllawiau newid.
- Bu cynnydd mewn tanau gwyllt/tanau bwriadol a thipio anghyfreithlon.
- Bu'r symud i weithio o bell yn llwyddiant, ond mae angen dulliau a threfniadau gwahanol er mwyn cefnogi staff o ran iechyd meddwl a llesiant.
- Llwyddwyd i drefnu cyfarfodydd pwysig mewn dyddiau o gymharu ag wythnosau.
- Mae cydlynu allanol ar gyfathrebu a chysondeb negeseuon yn bwysig, yn enwedig felly o ran cyfyngiadau ar symud a chael y negeseuon cywir allan.
- Mae'r gwaith o gau safleoedd wedi llwyddo oherwydd cydweithio da rhwng asiantaethau.
- Rydym yng nghyfnod cynllunio ailagor y brif swyddfa a safleoedd gwasanaethau. Rydym hefyd yn gweithio ar lefel genedlaethol ar drefn goleuadau traffig wrth geisio ailagor cefn gwlad yn raddol.
- Buom yn gweithio o bell gydag Aelodau'r Bwrdd a chynhaliwyd cyfarfodydd o bell hefyd.
- Cafodd lleoliaeth ei hatgyfnerthu gan y pandemig, ac felly hefyd bwysigrwyd cysylltiadau cymunedol.
- Rydym yn rhagweld cynnydd yn y galw am wyliau gartref, fydd yn cynnig cyfleoedd i dwristiaeth yng Nghymru. Er hynny, mae 80% o fusnesau twristiaeth yn bryderus, yn enwedig felly os yw'r sefyllfa'n parhau tan fis Medi.

Dywedodd Ruth Mullen y bydd y Canolfannau Ailgyrchu Gwastraff Cartref yn ailagor cyn bo hir, ond fe fydd cyfyngiadau oherwydd pellter cymdeithasol. Mae pobl yn cael eu hannog i gael gwared â gwastraff yn ddiogel mewn ffyrdd eraill e.e. casgliadau gwastraff gardd/compostio a'r gwasanaeth swmpwastraff.

Llywodraeth Cymru – Jean White

- Cawsom ein calonogi gan bopeth a glywsom o ran cydnerthedd, lleoliaeth, digideiddio ac ati.
- Me Iechyd Cyhoeddus Cymru yn diweddar cyhoeddiad bob dydd sy'n crynhoi'r holl gyhoeddiadau iechyd a gofal cymdeithasol, deddfwriaeth a datganiadau ac mae'n becyn da o adnoddau. Y bwriad yw ei fod yn cael ei rannu.
- Oherwydd y cafwyd cydymffurfiaeth â'r cyfyngiadau symud llwyddodd y GIG i ffrwyno cyfnod cyntaf y pandemig.
- Nod Llywodraeth Cymru yw diogelu bywydau ac atal marwolaethau ac mae'n golygu chwilio am gydbwysedd gyda niwed y cyfyngiadau symud i'r economi.
- Esboniwyd y gymhareb R ac effaith llacio'r cyfyngiadau.
- Bydd rhaid inni fyw gyda'r feirws yn ein cymdeithas nes y caiff brechlyn ei ddatblygu.
- Er y bydd y gymhareb R yn amrywio ar draws Cymru, byddai cyfrifo pob ardal ar wahân yn arwain at ymddygiadau gwahanol.
- Y bobl sy'n wynebu mwy o risg o gael heintiau difrifol yw:
 - Dynion BAME
 - Mae 70% o'r bobl sy'n gorfod mynd i'r ysbyty yn ddynion
 - Pobl ordeu

- Pobl hŷn
- Pobl a chanddynt gyflyrau iechyd isorweddol
- Rydym wrthi ar hyn o bryd yn cynllunio offeryn i helpu cyflogwyr i asesu beth yw lefel y risg i weithwyr, a chaiff ei rannu pan fydd ar gael.
- Mae rheoli achosion mewn cartrefi gofal wedi bod yn her fawr.
- Cafodd prawf gwrthgyrff ei gymeradwyo; bydd hynny'n help ond ni fydd yn cael gwared â'r feirws.
- Y gobaith yw na welwn ail na thrydedd don.

Cyfoeth Naturiol Cymru – Huwel Manley

- Buwyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i gau safleoedd i lawr a chawsom gefnogaeth gan yr Heddlu o ran defnydd anghyfreithlon o safleoedd coedwigaeth a'r bygythiad o rêfs.
- Er y bydd canolfannau ailgylchu gwastraff yn ailagor cyn bo hir, bydd rhai o'r cwmnïau sy'n derbyn y gwastraff ar gau.
- Rhaid sicrhau bod y storfeydd tanwydd mawr yn ddiogel.
- Ffactor a gyfrannodd at y prinder nwyddau ar ddiwedd mis Mawrth oedd y diffyg paledau a gynhyrchir ym Mhontrilas yn Llanelli. Cafodd arferion gwaith eu newid er mwyn rhyddhau cyflenwad o goed er mwyn gallu parhau i'w cynhyrchu a sicrhau mwy o gyflenwad ohonynt.
- Rydym wrthi ar hyn o bryd yn paratoi gosod contractau ac yn gobeithio creu cyfleoedd i gwmnïau lleol gyfrannu at y gwaith adfer wedi storm Dennis unwaith y caiff y cyfyngiadau eu llacio.
- Mae cydnerthedd cymunedol yn allweddol wrth edrych i'r dyfodol.
- Mae'r amgylchedd naturiol yn bwysig i'r cyhoedd ac mae angen inni sicrhau bod pob cymuned yn cael y cyfle i fwynhau darnau o dir glas. Cafodd llwybrau eu cerdded dros y misoedd diwethaf na chawsant eu defnyddio ers sawl blwyddyn. Mae cronfa fechan ar gael i roi cychwyn ar y gwaith.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol – Martyn Palfreman

- Mae'r Bartneriaeth wedi tyfu ac aeddfedu dros y misoedd diwethaf.
- Rydym wedi cynnull at ei gilydd arweinyddion ar draws y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector yn wythnosol er mwyn gwneud penderfyniadau chwim e.e. cydlynu PPE, sut i wneud i'r profion weithio ac ati.
- Cafodd adnoddau eu hailfuddsoddi/ailgyfeirio er mwyn gallu sefydlu ysbytai maes.
- Cynhaliwyd cyfarfod rhithwir o'r Bwrdd Partneriaeth ddydd Llun, ac aeth popeth yn iawn.
- Mae rhaglenni trawsnewid wedi profi eu gwerth o ran yr ymateb i Covid e.e. Gofal Rhagweithiol trwy Gymorth Technoleg gan ganolbwyntio ar grwpiau wedi'u hynysu ac ati. Yr her yw beth yw eu lle yn y cynllunio ar gyfer y normal newydd wrth i wasanaethau craidd gyd-fyw â'r ymateb i Covid.
- Rydym wedi ymrwymo i hunanfyfyrto ac mae gennym raglen ddatblygu er mwyn adeiladu ar y seiliau sydd wedi adeiladu dros y misoedd diwethaf.

Diolchodd Barry Liles i bawb am eu cyfraniadau.

GWEITHREDU	
Rhannu dogfen sy'n amlinellu amserlen yr hyn mae'r Cyngor wedi'i wneud ynghyd â rhai ystadegau ynghylch cysylltiadau, parseli bwyd ac ati	Ruth Mullen
Rhannu dadansoddiad ynghylch gwasanaeth band eang ar draws y sir ynghyd â manylion y gwaith sy'n cael ei wneud ar Strategaeth Trawsnewid Digidol y Sir yn y cyfarfod nesaf	Ruth Mullen
Dosbarthu'r Canllawiau a gyhoeddwyd ynghylch COVID-19	Jean White
Rhannu offeryn sy'n helpu cyflogwyr i asesu lefel y risg i weithwyr pan mae ar gael	Jean White

3. Cofnodion a Materion yn Codi: 22 Ionawr 2020

Gan fod rhai aelodau wedi gorfod gadael y cyfarfod erbyn hyn, nid oes gan y Bwrdd gworwm mwyach ac o'r herwydd ni ellir cytuno ar gofnodion y cyfarfod blaenorol. Cânt eu hychwanegu at agenda'r cyfarfod nesaf.

GWEITHREDU

Ychwanegu Cofnodion a Materion yn codi: 22 Ionawr 2020 at agenda'r cyfarfod nesaf.

Tîm Cymorth y BGC

4. Trefniadau ar gyfer y Cynllun Llesiant a chyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'r dyfodol

Ar hyn o bryd mae'r trefniadau ar gyfer y Cynllun Llesiant yn parhau tan 2023. Gallai trafodaethau heddiw fod wedi arwain at addasu'r Cynllun yng ngoleuni profiad Covid. Trafodir hyn yn y cyfarfod nesaf.

GWEITHREDU

Ychwanegu Trefniadau ar gyfer y Cynllun Llesiant ar agenda'r cyfarfod nesaf.

Tîm Cymorth y BGC

5. Atodedig er gwybodaeth:

Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru – 20 Ebrill 2020

Roedd y llythyr yn nodi fod y dyraniad cyllid rhanbarthol ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2020-21, a fyddai wedi cefnogi'r system wybodaeth ddigidol, yn cael ei dynnu'n ôl er mwyn cefnogi'r ymateb i Covid. Dywedodd Barry Liles, oni bai fod gwrthwynebiadau, y byddai'n ymateb i Lywodraeth Cymru gan ddweud, er ein bod yn deall yr angen am y penderfyniad, fod angen deall pwysigrwydd y BGC a'r ffordd y mae wedi gweithio wrth ymateb i Covid a'r rôl y gallai chwarae yn rhan o'r broses adfer ac mae'n siomedig fod y cyllid yn cael ei dynnu'n ôl. Byddai hynny'n adleisio safbwynt BGC Sir Benfro a gellid cyflwyno ymateb ar y cyd. Cytunwyd y dylid gwneud hynny.

GWEITHREDU

Ysgrifennu'n ôl at Lywodraeth Cymru yn mynegi siom nad yw'r cyllid Rhanbarthol ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol hon ac yn adleisio cais Sir Benfro y dylai'r cyllid barhau.

Tîm Cymorth y BGC

10. Unrhyw Fater Arall

Datganiad Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru

I'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

Trefniadau ar gyfer Cyfarfodydd i'r Dyfodol

Dywedodd Gwyneth Ayers y bydd y cyfarfod nesaf yn gyfarfod rhithwir, a gofynnodd sut hoffai partneriaid drefnu cyfarfodydd i'r dyfodol. Cytunwyd y cynhelir cyfarfodydd rhithwir i'r dyfodol gydag ambell gyfarfod wyneb yn wyneb.

GWEITHREDU

Cynnwys Datganiad Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru ar agenda'r cyfarfod nesaf – Gorfennaf

Tîm Cymorth y BGC

Trefnu cyfarfodydd rhithwir i'r dyfodol trwy Teams gydag ambell gyfarfod wyneb yn wyneb yn ôl y galw

Tîm Cymorth y BGC

	Crynodeb o'r Pwyntiau Gweithredu	Pwy	Diweddariad
	Gweithredoedd o gyfarfod 14 Mai		
1	Rhannu dogfen sy'n amlinellu amserlen yr hyn mae'r Cyngor wedi'i wneud ynghyd â rhai ystadegau ynghylch cysylltiadau, parseli bwyd ac ati	Ruth Mullen	Wedi ei gwblhau
2	Rhannu dadansoddiad ynghylch gwasanaeth band eang ar draws y sir ynghyd â manylion y gwaith sy'n cael ei wneud ar Strategaeth Trawsnewid Digidol y Sir yn y cyfarfod nesaf	Ruth Mullen	Ar agenda cyfarfod Gorffennaf 2020
3	Dosbarthu'r Canllawiau a gyhoeddwyd ynghylch COVID-19	Jean White	Wedi ei gwblhau
4	Rhannu offeryn sy'n helpu cyflogwyr i asesu lefel y risg i weithwyr pan mae ar gael	Jean White	Wedi ei gwblhau
5	Ychwanegu Cofnodion a Materion yn codi: 22 Ionawr 2020 at agenda'r cyfarfod nesaf	Tîm Cymorth y BGC	Ar agenda cyfarfod Gorffennaf 2020
6	Ychwanegu Trefniadau ar gyfer y Cynllun Llesiant ar agenda'r cyfarfod nesaf	Tîm Cymorth y BGC	Ar agenda cyfarfod Gorffennaf 2020
7	Ysgrifennu'n ôl at Lywodraeth Cymru yn mynegi siom nad yw'r cyllid Rhanbarthol ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol hon ac yn adleisio cais Sir Benfro y dylai'r cyllid barhau.	Tîm Cymorth y BGC	Cytunwyd bod ymateb rhanbarthol i gael ei ddrafftio ac, ar ôl cytuno arno, bydd yn cael ei lofnodi gan Barry Liles
8	Cynnwys Datganiad Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru ar agenda ar agenda'r cyfarfod nesaf - Gorffennaf	Tîm Cymorth y BGC	Ar agenda cyfarfod Gorffennaf 2020
9	Trefnu cyfarfodydd rhithwir i'r dyfodol trwy Teams gydag ambell gyfarfod wyneb yn wyneb yn ôl y galw	Tîm Cymorth y BGC	Yn parhau